Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, Adroddiad a Llythyr Rheoli

# Awdurdod Tân Gogledd Cymru

**Blwyddyn archwilio:** 2014-15

**Cyhoeddwyd:** Mis Medi 2015

**Cyfeirnod y ddogfen:** NWFA2015

**Diben y ddogfen hon**

Drafft yw'r ddogfen hon, a ddarperir yn gyfrinachol dim ond at ddiben gwirio cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth sydd ynddi ac i gael barn ar y casgliadau y daethpwyd iddynt.

**Ymdrin â'r ddogfen cyn ei chyhoeddi**

Mae'r ddogfen hon a'r hawlfraint sy'n gysylltiedig â hi yn eiddo, ac yn parhau i fod yn eiddo, i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â swyddogaethau statudol dim ond i gyflawni swyddogaethau statudol ac fe'i paratowyd yn sail i ddogfen swyddogol a allai gael ei chyflwyno neu ei chyhoeddi maes o law. Gallai hefyd gynnwys gwybodaeth y byddai ei datgelu heb awdurdod yn drosedd o dan adran 54 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ac eithrio fel y caniateir yn benodol dan y gyfraith, ni cheir atgynhyrchu'r ddogfen na dim o'i chynnwys, ei storio mewn system adalw a/neu ei darlledu ar unrhyw ffurf nac mewn unrhyw fodd, na'i datgelu i unrhyw berson ac eithrio'r derbynnydd gwreiddiol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'n rhaid ei diogelu bob amser i atal ei chyhoeddi neu ddefnydd amhriodol arall o'i chynnwys. Gallai ei defnyddio neu ei datgelu heb awdurdod arwain at achos cyfreithiol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac ag unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Lluniwyd y ddogfen hon gan KPMG LLP ar ran yr Archwilydd Penodedig. Roedd y tîm archwilio'n cynnwys Virginia Stevens (Swyddog Arweiniol Ymgysylltu Archwiliad Ariannol), Katherine Spooner (Rheolwr Archwiliadau Ariannol) a Rob Andrews (Archwilydd).

DRAFT

# Cynnwys

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi casgliadau archwiliad 2014-15 ac yn cynnwys ein hargymhellion ar gyfer y flwyddyn. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad cryno** | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 5 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Argymhellion sy'n deillio o waith archwilio 2014-15 | 7 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 7 |
| **Atodiadau** | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 8 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru | 11 |
| Argymhellion sy'n deillio o waith archwilio 2014-15 | 13 |


DRAFT

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae dau ddiben i'r adroddiad hwn:

- cyflwyno, er mwyn eu hystyried, y materion sy'n deillio o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ("yr Awdurdod"), ar gyfer 2015, y mae'n ofynnol cyflwyno adroddiad arnynt i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu, ar amser er mwyn gallu cymryd camau priodol;
- nodi'n ffurfiol ein bod wedi cwblhau ein harchwiliad a rhestru'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio ar gyfer y flwyddyn.

**2.** Nodwyd cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol yn ein cynllun archwilio ynghyd â'ch cyfrifoldebau chi yn rhinwedd eich gwaith llywodraethu; nid ydym yn eu hailadrodd yn fanwl yma.

**3.** Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cynnal yr archwiliad fel y bwriadwyd ac yn unol â'r ffi a nodir yn y ddogfen gynllunio archwiliad. Nid oes gennym unrhyw faterion eraill i'w nodi heblaw am y rhai sydd yn yr adroddiad hwn.

**4.** Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Awdurdod Tân Gogledd Cymru a'r staff am eu cymorth, papurau gwaith o ansawdd da a chyfrifon drafft a ddarparwyd yn ystod ein harchwiliad.

**5.** Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am roi ei farn a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**6.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi eu datgan yn gywir, ond gweithredwn yn ôl syniad pwysigrwydd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau o bwys yn eich datganiadau ariannol, sef y rhai hynny a allai olygu y byddai rhywun sy'n darllen y cyfrifon yn cael ei gamarwain.

**7.** Mae'r lefelau meintiol yr ydym yn barnu bod camddatganiadau o'r fath o bwys ar gyfer Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn £315,000 ar gyfer incwm ac eitemau gwariant a balansau cyfalaf gweithio, a £315,000 ar gyfer balansau eraill. Gall rhai materion ansoddol hefyd effeithio ar farnu a yw eitem o bwys, er enghraifft gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol a sensitifrwydd gwleidyddol.

## Statws yr archwiliad

**8.** Derbyniwyd y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 ar 30 Mehefin 2015, dim un diwrnod cyn y dyddiad terfynol y cytunwyd arno sef 30 Mehefin 2015, a bellach rydym wedi cwblhau'r gwaith archwilio i raddau helaeth.

**9.** Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwy sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad, yr ydym o'r farn bod rhaid i chi eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae'r tîm archwilio eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dawn Docx (Y Dirprwy Brif Swyddog Tân) a Sandra Forrest (Y Prif Gyfrifydd).

DRAFT

# Adroddiad archwilio arfaethedig

**10.** Bwriad yr Archwilydd Cyffredinol yw cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol pan fyddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau i ni sy'n seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**11.** Mae'r adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2

# Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**12.** Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau i fod heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**13.** Nid oes unrhyw gamddatganiadau a gywirwyd yr ydym yn credu y dylid tynnu eich sylw atynt, roedd nifer o newidiadau o ran cyflwyniad y datganiadau ariannol a newidiadau rhifyddol ynddynt, ond nid oedd yr un ohonynt yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Fantolen.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**14.** Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol ynghylch y cyfrifon ac yn rhoi adroddiad ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi o'ch safbwynt chi. Nid oedd unrhyw faterion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

- **Nid oes gennym unrhyw bryderon am yr agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'r adroddiadau ariannol a gyflwynwch.**

  Yn gyffredinol, canfuom fod y wybodaeth a ddarparwyd yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymharol, yn sylweddol ac yn rhwydd ei deall. Casglwyd bod y polisïau cyfrifyddu a'r amcangyfrifon yn briodol a bod y datgeliadau'r adroddiadau ariannol yn ddiduedd, yn deg ac yn eglur. Fodd bynnag, mae angen ystyried amledd prisiad y Cyngor o'i bortffolio eiddo i sicrhau bod y prosesau a ddilynir yn sicrhau, ac yn gallu dangos, nad yw'r gwerth a briodolir i asedau yn wahanol iawn i'w gwerth teg (gweler yr argymhelliad yn Atodiad 3 i gael rhagor o fanylion).

- **Ni chafwyd unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.**

  Derbyniwyd y wybodaeth yn brydlon ac yn hwylus ac ni chyfyngwyd arnom yn ein gwaith.

DRAFT

- **Ni thrafodwyd unrhyw faterion sylweddol ac ni fu unrhyw ohebu gyda'r rheolwyr y mae angen i ni eich hysbysu amdano.**

| Risg allweddol wrth archwilio datganiad ariannol | Canfyddiadau |
|---|---|
| **Rheolwyr yn diystyru'r dulliau rheoli** | • Defnyddiwyd dull sy'n seiliedig ar risg o ddewis cofnodion a wnaed gydol y flwyddyn a phrofwyd y rhain o'u cymharu â'r dogfennau ategol.<br>• Adolygwyd yr amcangyfrifon cyfrifyddu gan gynnwys darpariaethau a dibrisiant i asesu a oedd unrhyw ragfarn gan y rheolwyr.<br>• Ni nodwyd unrhyw drafodion o bwys a oedd y tu allan i'r gweithdrefnau busnes arferol. |
| **Gwerthusiad o Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, y mae Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn aelod ohono** | • Adolygwyd y wybodaeth a ddarparwyd gan actiwari'r cynllun pensiwn a chadarnhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn adlewyrchu'r wybodaeth hon yn briodol.<br>• Adolygwyd y data a ddarparwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i gadarnhau eu bod yn gywir.<br>• Cysylltwyd â'r Archwilydd Penodedig ar gyfer y cynllun pensiwn i gael sicrwydd am y data a'r broses a ddilynir gan y cynllun ar ran y Cyngor.<br>• Casglwyd bod y rhwymedigaethau pensiwn wedi eu datgan yn deg ar ddiwedd y flwyddyn ac na chynigiwyd unrhyw addasiadau i'r balans. |

- **Nid oes unrhyw faterion eraill o bwys i oruchwyliaeth y broses cyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanynt.**
- **Ni nodwyd unrhyw wendidau o bwys yn eich dulliau rheoli mewnol nad ydym wedi rhoi gwybod i chi amdanynt nodi eisoes.**

  Rydym yn nodi unrhyw ddiffygion rheoli o bwys pan nad ydych eisoes yn ymwybodol ohonynt neu mae'n bosibl eu bod yn symptomatig o wendidau ehangach yn yr amgylchedd rheoli cyffredinol, yn Atodiad 3.
- **Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen penodol o dan y safonau archwilio eu cyfleu i'r bobl hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu.**

## Argymhellion sy'n deillio o waith archwilio 2014-15

**15.** Mae'r argymhellion sy'n deillio o'n gwaith archwilio wedi eu nodi yn Atodiad 3. Mae'r rheolwyr wedi ymateb iddynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y cynnydd arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Pan fo unrhyw gamau yn parhau i fod heb eu gweithredu, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd a'i nodi yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

## Annibyniaeth a gwrthrychedd

**16.** Yn rhan o'r broses o derfynu'r adroddiad, mae'n ofynnol i ni ddarparu sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**17.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac nid yw ein gwrthrychedd dan fygythiad. Nid oes unrhyw berthynas rhwng Swyddfa Archwilio Cymru, KPMG LLP ac Awdurdod Tân Gogledd Cymru yr ydym o'r farn ei bod yn dylanwadu ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth.

DRAFT

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

KPMG LLP
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Bae Caerdydd
CF10 4AX

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Ffordd y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

30 Medi 2015

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2014/15

Cyflwynir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 at ddiben mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt.

Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau yr ydym yn eu hystyried yn ddigonol, y gallwn gyflwyno'r sylwadau hyn i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb o ran:

- Paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaeth a Chod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.
- Cynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu'r dulliau rheoli mewnol er mwyn atal a darganfod twyll a chamgymeriadau.

### Gwybodaeth a roddwyd

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad llawn i'r canlynol:
  – yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennau ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  – gwybodaeth ychwanegol yr ydych wedi gofyn i ni amdani at ddibenion yr archwiliad; a
  – mynediad anghyfyngedig at staff y penderfynwyd gennych bod rhaid cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan yn sylweddol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir yr ydym yn ymwybodol ohoni ac sy'n effeithio ar Awdurdod Tân Gogledd Cymru ac sy'n ymwneud â:
  – rheolwyr;
  – cyflogeion sydd â swyddogaethau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  – eraill lle gallai'r twyll gael effaith sylweddol ar ein datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Manylion yr holl bartïon cysylltiedig â'r holl gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau ar y datganiad ariannol

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd i'r archwilydd bob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith perthnasol ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau sylweddol, gan gynnwys bylchau.

DRAFT

Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd.

## Sylwadau gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Awdurdod Tân ar 21 Medi 2015.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylid eu cymryd er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i wneud yn siŵr bod hon wedi ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, i'r graddau rydym yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| Cadeirydd yr Awdurdod | Trysorydd yr Awdurdod |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

DRAFT

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Awdurdod Tân Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Datganiadau cyfrifyddu Awdurdod Tân Gogledd Cymru yw y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig.

Datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yw Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalen saith mae'r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

### Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu

Cynhelir archwiliad er mwyn cael digon o dystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Awdurdod Tân Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a'u bod wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; ac asesu a yw'r amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a nodwyd gan y swyddog cyllid cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn rhesymol.

Yn ogystal, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau perthnasol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel pe bai'n berthnasol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a ddaw i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw

gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu o Awdurdod Tân Gogledd Cymru

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

### Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân

Yn fy marn i, mae cyfrifon a nodiadau cysylltiedig y gronfa bensiwn:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2015 a swm a threfniadaeth asedau a rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn y Rhagair Esboniadol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw faterion i gyflwyno adroddiad arnynt o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi yn eu cylch, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw;
- nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau gofynnol ar gyfer fy archwiliad;
- yw y Datganiad Llywodraethu yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol sylweddol neu ei fod yn anghyson â gwybodaeth arall rwyf yn ymwybodol ohoni yn dilyn fy archwiliad.

### Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Ar gyfer ac ar ran**

**Anthony Barrett** — **Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd CF11 9LJ**
**30 Medi 2015**

DRAFT

# Atodiad 3

## Argymhellion sy’n deillio o waith archwilio 2014-15

Nodwn yr holl argymhellion sy’n codi o’n harchwiliad gydag ymateb y rheolwyr iddynt. Byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain y flwyddyn nesaf ac yn cynnwys unrhyw faterion sy’n parhau i fod heb eu gweithredu yn Adroddiad Archwilio y flwyddyn nesaf:

| **Mater sy’n codi 1 – Adolygiad o’r polisi prisio eiddo, peiriannau trwm ac offer** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae’r polisïau cyfrifyddu yn nodi i’r ailbrisiad eiddo llawn diweddaraf gael ei gynnal gan Wilks, Head and Eve ar 1 Ebrill 2009. Ailbrisio sawl eitem eiddo ar 1 Ebrill 2012 oherwydd gwaith a wnaed ar yr eiddo hyn ac roedd y rhain yn rhan o’r polisi a gyflwynwyd gan yr Awdurdod i brisio ei eiddo ar sail dreigl yn hytrach na chynnal prisiad llawn bob pum mlynedd. Ailbrisiwyd un eiddo yn 2014-15 oherwydd mân waith a wnaed ar yr eiddo. I gydymffurfio â’r Cod Ymarfer, amcangyfrifodd y prisiwr fywydau gweddilliol ar gyfer holl adeiladau’r Awdurdod er mwyn gallu cyfrifo tâl am ddibrisiant. Cydnabyddir asedau eraill ar gost hanesyddol sy’n ddirprwyol ar gyfer costau cyfredol ar asedau bywyd byr a’u dibrisio dros gyfnod eu bywydau defnyddiol.<br><br>Yn unol â’r Cod Ymarfer nodir y dylid ailbrisio eitemau mewn dosbarth o eiddo, peiriannau trwm ac offer ar yr un pryd er mwyn osgoi ailbrisio asedau’n ddewisol ac adrodd symiau yn y datganiadau ariannol sy’n gymysgedd o gostau a gwerthoedd ar wahanol ddyddiadau. Fodd bynnag, ceir ailbrisio dosbarth o asedau ar sail dreigl ar yr amod y cwblheir yr ailbrisiad y dosbarth mewn cyfnod byr ac ar yr amod bod y prisiadau’n cael eu cadw’n gyfredol. Dylid cynnal ailbrisiadau ar gyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig |
| **Argymhelliad** | Dylai’r Awdurdod adolygu’r polisi ailbrisio cyfredol i sicrhau bod y dull o brisio eiddo, peiriannau trwm ac offer yn gyson â gofynion y Cod. Dylai’r Awdurdod sicrhau ei hun bod y polisi a fabwysiadir yn sicrhau bod asedau’n cael eu hailbrisio yn ddigon rheolaidd i gasglu newidiadau perthnasol ym mhrisiad ased, a bod y balans a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn adlewyrchiad cywir o’r gwerth teg ar ddyddiad diwedd y flwyddyn. |
| **Manteision gweithredu’r argymhelliad** | Bydd adolygu prisiau eiddo, peiriannau trwm ac offer yn rheolaidd yn rhoi sicrwydd na fydd y swm a briodolir yn gwahaniaethu’n sylweddol o hwnnw a gyfrifid trwy ddefnyddio’r gwerth teg ar ddiwedd y cyfnod adrodd. |
| ***Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr*** | Nid yw’r holl eiddo yn y portffolio wedi eu hailbrisio o fewn yr amserlen 5 mlynedd ac mae’r Polisi ailbrisio treigl ar gyfer eiddo, sydd wedi’i gytuno gan yr Awdurdod, wedi gweithio lle y bu adeilad newydd neu achos o adnewyddu eiddo, ond nid yw wedi cynnwys yr adeiladau hynny lle na fu unrhyw waith mawr yn ystod y cyfnod. |

| Mater sy'n codi 1 – Adolygiad o'r polisi prisio eiddo, peiriannau trwm ac offer | |
|---|---|
| ***Ymateb y rheolwyr*** | Fe gynigir fod y polisi yn cael ei addasu fel fod prisiad llawn yn cael ei gynnal bob 5 mlynedd er mwyn sicrhau fod yr holl adeiladau'n cael eu hailbrisio yn unol â'r Cod Ymarfer. Bydd unrhyw adeiladau newydd, neu rhai sydd wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol, hefyd yn cael eu hailbrisio pan fydd yr ased yn dechrau cael ei ddefnyddio gan yr Awdurdod. |
| ***Dyddiad gweithredu*** | Polisi diwygiedig wedi'i gymeradwyo gan Aelodau ym mis Medi 2015. Ailbrisiad llawn wedi'i gynnal erbyn 1 Ebrill 2016. |

DRAFT

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk